**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol**

**Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023 dros Microsoft Teams**

## 1. Yn bresennol

Vikki Howells Aelod o'r Senedd (Cadeirydd); Alex Davies Jones Aelod Seneddol (Siaradwr); Steve Fothergill (Siaradwr), Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol yr ICA; Chris Whitwood (Siaradwr), Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol yr ICA; David Rees Aelod o'r Senedd; Laurie Sutcliffe (Swyddfa'r Aelod Seneddol Alex Davies Jones); Robin Lewis, Swyddfa'r Aelod o'r Senedd Vikki Howells; y Cynghorydd Gareth Jones, CBS Rhondda Cynon Taf; y Cynghorydd Neelo Farr, CBS Pen-y-bont ar Ogwr; y Cynghorydd Andrew Dacey, CBS Castell-nedd Port Talbot; y Cynghorydd Rob Jones, CBS Castell-nedd Port Talbot; y Cynghorydd Andrew Barry, CBS Merthyr Tudful; y Cynghorydd James Pritchard, CBS Caerffili; Amanda Murphy, Swyddfa'r Aelod o'r Senedd Lee Waters; Helen Parfitt, Swyddfa'r Aelod o'r Senedd Peredur Owen Griffiths; Jordan Griffiths, Swyddfa'r Aelod o'r Senedd Luke Fletcher; Ryland Doyle, Swyddfa'r Aelod o'r Senedd Mike Hedges; Adil Pirmohamed, CBS Castell-nedd Port Talbot; Paul Hudson, CBS Caerffili; Dawson Evans, CBS Torfaen; Michelle Rowson, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo; Meirion Thomas, ICA Cymru;

## 2. Ymddiheuriadau

Lee Waters Aelod o'r Senedd; Luke Fletcher Aelod o'r Senedd: y Cynghorydd Anthony Hunt, CBS Torfaen; Mike Hedges Aelod o'r Senedd; y Cynghorydd Steve Hunt, CBS Castell-nedd Port Talbot; y Cynghorydd Andrew Morgan, CBS Rhondda Cynon Taf; y Cynghorydd Michelle Symonds, CBS Merthyr Tudful.

## 3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023

Cymeradwywyd heb eu diwygio.

## 4. "Y Camau Nesaf o ran Sicrhau Chwarae Teg i'r Hen Feysydd Glo"

Rhoddodd yr Aelod Seneddol Alex Davies Jones a Chris Whitwood o Ysgrifenyddiaeth y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol (ICA) ddiweddariad ar yr Adroddiad APPG.

Croesawodd y Cadeirydd ein dau siaradwr a diolch iddynt am eu cyfraniad.

Esboniodd yr Aelod Seneddol Alex Davies Jones gefndir yr adroddiad a rhoddodd ddiweddariad i'r cyfarfod ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan y cyrff a'r adrannau llywodraeth hynny a grybwyllwyd yn yr adroddiad neu sy'n gyfrifol am yr ardaloedd dan sylw.

Esboniodd Alex Davies Jones fod yr adroddiad wedi'i gomisiynu a'i ysgrifennu gan y Grŵp Hollbleidiol Seneddol (APPG) - gyda chymorth Ysgrifenyddiaeth Cynghrair y Cymunedau Diwydiannol, yn arbennig Chris Whitwood - ac mae'n nodi agenda eang gyda deuddeg argymhelliad y gellir eu gweithredu.

Yn dilyn lansiad yr adroddiad yn San Steffan ym mis Mehefin, anfonwyd llythyrau at yr Ysgrifenyddion Gwladol ac Ysgrifenyddion Gwladol yr Wrthblaid yr adrannau perthnasol ac at sefydliadau perthnasol eraill. Hyd yma, mae ymatebion wedi dod i law gan y canlynol, ymysg eraill:

- Yr Adran Sicrwydd Ynni a Sero Net
- Yr Adran Addysg
- Tri dosbarthwr y Loteri y cysylltwyd â nhw – Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Chyngor Celfyddydau Lloegr
- Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau – ymateb ysgrifenedig gan y Gweinidog Ffyniant Bro presennol, yn ogystal â'r gweinidog blaenorol a fynychodd gyfarfod y grŵp hollbleidiol.
- Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo (CISWO)

Mae cyfarfod adeiladol hefyd wedi'i gynnal gyda'r Awdurdod Glo a threfnwyd ymweliad â chyfleuster peilot geothermol Gateshead. Mae ymweliad tebyg â chanolfan rhagoriaeth rheilffyrdd cwm Nedd yn cael ei drafod.

Dywedodd Alex Davies Jones wrth y Grŵp Trawsbleidiol fod ymgysylltu â Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo (CISWO) wedi bod yn arbennig o heriol. Fodd bynnag, cafwyd ymateb yn ddiweddar a rhagwelir nawr y bydd cyfarfod dilynol i drafod canfyddiadau'r Grŵp Trawsbleidiol a'r argymhellion a gyfeiriwyd at CISWO yn cael ei drefnu gyda'r sefydliad hwnnw.

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod ar gyfer cwestiynau a phwyntiau trafod.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Jones (RhCT) ei fod yn arbennig o falch o glywed bod CISWO bellach wedi ymateb. Atgoffodd y cyfarfod ei fod wedi bod yn mynegi pryder ers peth amser am y diffyg tryloywder ac atebolrwydd y gall CISWO eu cynnal yn ôl pob golwg er gwaethaf ceisiadau cyson am wybodaeth gan gynrychiolwyr etholedig a grwpiau cymunedol yng nghymunedau meysydd glo y De.

Gofynnodd y Cadeirydd (Vikki Howells Aelod o'r Senedd) am ragor o wybodaeth ynghylch y cyfleoedd i elwa ar ynni geothermol o weithfeydd glo segur.

Nododd yr Aelod Seneddol Alex Davies Jones mai nod yr APPG fu dysgu mwy am gyflwr y dechnoleg. Yn hyn o beth, mae'r Grŵp wedi cael sicrwydd bod gwaith ymchwil a threialu cynlluniau wedi bod yn digwydd ond nodwyd ei bod hi'n ddyddiau cynnar o hyd. Mae angen rheoli disgwyliadau hefyd oherwydd nid yw pob safle yn ymarferol nac yn addas ar gyfer y buddsoddiad sydd ei angen i wneud cynlluniau geothermol yn hyfyw.

Dywedodd Chris Whitwood (ICA) eu bod wedi adrodd mewn cyfarfodydd gyda'r Awdurdod Glo fod 'mapiau gwres' o feysydd glo y De wedi'u gwneud i brofi lle y gallai fod yn ymarferol gweithredu cynlluniau geothermol. Mae hyn bellach yn cael ei drafod â Llywodraeth Cymru, lle mae Gweinidog yr Economi (yr Aelod o'r Senedd Vaughan Gething) wedi dangos llawer o ddiddordeb yn ôl pob sôn.

Gofynnodd Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol (Meirion Thomas, ICA), o ran y trafodaethau â Llywodraeth y DU, a oedd unrhyw newid i safbwynt datganedig Llywodraeth y DU sef bod diogelwch tomenni glo yn fater datganoledig a bod gan Lywodraeth Cymru arian i gyflawni ei chyfrifoldebau yn y maes hwn.

Dywedodd Alex Davies Jones nad oedd hi'n ymddangos hyd yma bod llywodraeth y DU yn mynd i newid ei safbwynt. Nododd y Cadeirydd fod llythyrau Llywodraeth Cymru wedi'u hanfon at dirfeddianwyr ledled Cymru sy'n berchen ar eiddo (gan gynnwys tir) a allai fod ar domenni glo neu a allai gael ei effeithio gan symudiadau tomenni glo yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, mae'r Cadeirydd ar ddeall bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi gwrthod ychwanegu ei enw a'i swydd yn Llywodraeth y DU at y llythyr.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Aelod Seneddol Alex Davies Jones ac i Chris Whitwood am eu cyfraniadau at y cyfarfod a'r drafodaeth ddilynol a gofynnodd a ellid diweddaru'r Grŵp Trawsbleidiol am ddatblygiadau ac ymatebion yn y dyfodol.

(Gadawodd yr Aelod Seneddol Alex Davies Jones a Laurie Sutcliffe y cyfarfod ar y pwynt hwn.)

## 5. Cyhoeddiadau diweddar ynghylch dyfodol diwydiant dur y DU.

Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Steve Fothergill, Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol a oedd wedi’i wahodd i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Grŵp Trawsbleidiol am y cyhoeddiadau diweddar ar ddyfodol diwydiant dur y DU yn gyffredinol a gwaith dur Tata ym Mhort Talbot yn benodol.

Roedd papur a ddrafftiwyd gan y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol - “The Wrong Deal for Steel” - wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw i aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol a'r rhai a wahoddwyd i ymuno â'r cyfarfod.

Dywedodd yr Athro Fothergill wrth y Grŵp fod y papur wedi'i ddatblygu ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau sy'n aelodau o’r gynghrair (ac yn arbennig yr awdurdodau lleol sy'n debygol o gael eu heffeithio fwyaf gan sefyllfa Port Talbot); Aelodau Seneddol lleol y De ac yn uniongyrchol ag UK Steel (y corff sy’n cynrychioli cynhyrchwyr dur y DU).

Tynnodd yr Athro Fothergill sylw at y dadleuon sy’n crynhoi pam mae’r ICA yn credu nad yw’r fargen sydd wedi’i chyflwyno – sef lleihau yn sylweddol neu ddisodli cynhyrchiant dur ffwrnais chwyth ym Mhort Talbot gyda chynhyrchiant ffwrnais arc trydan (EAF) gan ddefnyddio dur sgrap yn unig - yn addas i Bort Talbot nac ar gyfer diwydiant dur ehangach y DU:

i. Bydd y fargen yn ddi-os yn arwain at golli swyddi ym Mhort Talbot a’r cyffiniau ar adeg ac mewn ardal lle na all y cymunedau yr effeithir arnynt ymdopi â’r effeithiau.

ii. Mae’r drafodaeth am golli swyddi sy’n canolbwyntio ar weithlu Port Talbot yn tangynrychioli’n fawr y colledion swyddi yn y gadwyn gyflenwi a’r colledion swyddi mewn diwydiannau dibynnol – tunplat, melinau rholio, saernïo ac ati – na fyddant yn gallu dod o hyd i’r math o ddur nad yw ond yn gallu cael ei wneud drwy gynhyrchiant dur ffwrnais chwyth.

iii. Bydd colli cynhyrchiant dur sylfaenol, os caiff ei ddisodli gan gynhyrchiant EAF yn unig, yn cyfyngu’n ddifrifol ar allu’r DU i gynhyrchu dur ac yn arwain at golli gallu sofran y DU mewn economi fyd-eang gystadleuol. Bydd y DU yn sylweddol ddibynnol neu hyd yn oed yn gwbl ddibynnol ar fewnforion cynhyrchion dur sylfaenol ar gyfer ei diwydiannau gweithgynhyrchu ac adeiladu.

iv. Nid yw'r newid i gynhyrchiant EAF yn golygu'n derfynol y bydd y diwydiant dur yn dod yn ddiwydiant 'dur gwyrdd' gan fod cynhyrchiant arc trydan yn gofyn am symiau mawr iawn o drydan a fydd, yn y tymor byr i ganolig o leiaf, angen dod o orsafoedd ynni nwy yn y DU.

v. Ymhellach, gan y bydd angen parhau i fewnforio cynhyrchion dur sylfaenol i ddiwallu anghenion gweithgynhyrchu ac adeiladu'r DU, bydd yr allyriadau carbon yn cael eu 'hallforio' i wledydd eraill sy'n cynhyrchu dur yn hytrach na'u dileu yn llwyr.

Nododd yr Athro Fothergill, ym marn yr ICA, fod dull amgen sy’n ennyn mwy a mwy o gefnogaeth gan eraill.

Y dull hwn, yn syml, yw symud ymlaen â'r buddsoddiad EAF **YNGHYD Â** buddsoddi mewn prosesau Lleihau Haearn Uniongyrchol (DRI) sydd eisoes wedi'u profi mewn gweithfeydd yn Ewrop. Bydd DRI yn disodli gweithfeydd ffwrnais chwyth / golosg gyda gweithfeydd sy'n cael eu pweru gan danwyddau amgen – sy'n debygol o fod yn nwy yn y tymor byr i ganolig ond gyda'r posibilrwydd o'i ddisodli gan danwyddau hydrogen yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Fodd bynnag, mae'r dull amgen yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU nodi ac ymrwymo i'r buddsoddiad a'r cynllunio a'r weledigaeth hirdymor ar gyfer dyfodol cynhyrchu dur yn y DU.

Wrth agor y drafodaeth, croesawodd yr Aelod o'r Senedd David Rees (sydd hefyd yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddur) y dadansoddiad o'r sefyllfa a amlinellwyd gan yr Athro Fothergill. Ymhellach, cytunodd â'r dull amgen a amlinellwyd yn y cyflwyniad gan nodi bod angen ymgynghori'n ystyrlon â Tata a llywodraeth y DU, a chynnwys Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol ac, yn hollbwysig, yr undebau sy'n cynrychioli gweithlu Port Talbot.

Cefnogodd y Cynghorydd Gareth Jones y dadansoddiad a'r dull gweithredu ac fe'i trawyd yn arbennig gan oblygiadau strategol colli gallu cynhyrchu dur sylfaenol ar adeg pan fo'r byd yn lle ansicr a lle mae effeithiau colli sicrwydd ynni wedi'u hamlygu gan y rhyfel yn Wcráin.

Adleisiodd y Cynghorwyr Rob Jones ac Andrew Dacey o Gastell-nedd Port Talbot y sylwadau a wnaed gan yr Aelod o'r Senedd David Rees a'r Cynghorydd Jones.

Gwnaeth Adil Pirmohamed (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) sylw fel aelod o'r tîm Pontio a sefydlwyd o dan arweinyddiaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'n debygol y bydd dod â'r broses o wneud dur ym Mhort Talbot i ben yn effeithio ar oddeutu 4,000 o bobl yn y ffatri, 18,000 arall yn y gadwyn gyflenwi yng Nghymru a hyd at 32,000 yn y gadwyn gyflenwi a diwydiannau dibynnol yn y DU.

Nododd Mr Pirmohamed hefyd fod amseriad unrhyw newid i EAF neu symud o gynhyrchiant ffwrnais chwyth sy'n cael ei bweru gan lo i gynhyrchiant DRI yn hollbwysig. Ar hyn o bryd, nid ydynt wedi'u halinio'n dda. Bydd angen alinio hefyd â'r Porthladd Rhydd Celtaidd posibl a'r capasiti ffermydd gwynt arnofiol ar y môr y bydd ei angen i fod yn sail i ddyfodol lle gwneir gwneud dur drwy EAF a DRI ym Mhort Talbot.

Croesawodd y cadeirydd y sylwadau a'r cytundeb cyffredinol â'r dadansoddiad a'r dull gweithredu amgen a nodir yn y papur yr oedd yr Athro Fothergill wedi'i grynhoi.

Ailadroddodd yr Athro Fothergill fod y Gynghrair eisiau gweithio gyda'r cymunedau diwydiannol yr effeithir arnynt, eu hawdurdodau lleol a'r cynrychiolwyr gwleidyddol yn y Senedd ac yn San Steffan.

## 6. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

Oedwyd y cyfarfod er mwyn gallu cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## 7. Unrhyw Fater Arall

Cododd y Cynghorydd Gareth Jones fater sy'n peri pryder iddo ynghylch Cronfa Les Glowyr De Cymru a'i buddsoddiad mewn gwestai, heb fawr o fudd i gyn-lowyr. Gofynnodd a yw'n bosibl i'r mater gael ei godi gan y Grŵp Trawsbleidiol. Cydnabu'r

Cadeirydd y pryderon a fynegwyd ac awgrymodd, o ystyried adroddiad yr APPG ar 'Chwarae Teg i'r cymunedau Meysydd Glo', y byddai'n fwyaf priodol cysylltu'r materion â'r sylwadau pellach sy'n cael eu gwneud gan yr APPG.

Dywedodd yr Ysgrifennydd yr hoffai cydweithwyr sy'n darparu cymorth i Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol Senedd yr Alban drafod cynnal sesiwn ar y cyd rhwng Grwpiau Trawsbleidiol y ddwy wlad yn 2024. Awgrymodd y Cadeirydd y dylem agor trafodaethau yn hyn o beth i archwilio'r posibiliadau a chyflwyno cynigion.

**8. Cloi'r cyfarfod**

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am gymryd rhan a daeth â'r cyfarfod i ben.